**RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni ar Dydd Mercher, 8 Ionawr 2014.**

***[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.***

***Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â recordiad sain o'r gweithgareddau].***

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Y Cynghorydd W.T. Hughes (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jeffrey M. Evans, John Griffith, K.P. Hughes, Vaughan Hughes, T. Victor Hughes, Richard O. Jones, Nicola Roberts. |
| **Ymddiheuriadau:** | Y Cynghorydd Ann Griffith |
| **Hefyd yn bresennol:** | Aelodau Lleol: Y Cynghorydd Llinos M. Huws – cais 11.1 |

1.00 p.m. i 2.20 p.m.

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **1 YMDDIHEURIADAU** |
| PENDERFYNIAD | Nodir yr ymddiheuriadau uchod. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 DATGANIAD O DDIDDORDEB** |
| PENDERFYNIAD | Gwnaed datganiadau o ddiddordeb fel a ganlyn:-<br><br>Y Cynghorydd Nicola Roberts mewn perthynas â chais 7.1<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, John Griffith, Vaughan Hughes a Nicola Roberts mewn perthynas â chais 13.2 oherwydd y cyfeiriad at Dyrbinau Gwynt ym Maniffesto Plaid Cymru ond dywedodd y pedwar y byddant yn ystyried y cais yn ôl ei rinweddau ei hun. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 COFNODION** |

| | |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2013 ac fe’u cadarnhawyd fel rhai cywir yn amodol ar y newidiadau isod:-<br><br>• Eitem 11.1 – 18C215 – Ni phleidleisiodd y Cynghorydd John Griffith ar y cais oherwydd ei fod yn Aelod Lleol.<br>• Eitem 14.1 – Gorchymyn Cyngor Sir Ynys Môn (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd) (Amryfal Feysydd Parcio yn Ynys Môn) (1) 2013.<br><br>Nodi y bydd unrhyw safleoedd talu ac arddangos newydd yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ac nid y Pwyllgor Gwaith. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A’R PWNC | **4 YMWELIAD SAFLEOEDD** |
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion yr Ymweliadau Safle a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr, 2013 fel rhai cywir. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A’R PWNC | **5 SIARAD CYHOEDDUS** |
| PENDERFYNIAD | Ni chafwyd unrhyw siaradwyr cyhoeddus. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A’R PWNC | **6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO** |
| PENDERFYNIAD | **6.1 14C135A – Cais llawn i godi annedd a garej breifat, creu mynedfa newydd i gerbydau a gosod pecyn triniaeth ar dir ger Glasfryn, Tyn Lôn.**<br><br>**PENDERFYNWYD gohirio rhoi sylw i’r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog ac am y rheswm a roddir yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**6.2 34C553A – Cais amlinellol am ddatblygiad preswyl gan gynnwys cyfleuster gofal ychwanegol, isadeiledd priffyrdd a chysylltiedig yn Ty’n Coed, Llangefni.** |

| | |
|---|---|
| | **PENDERFYNWYD tynnu'r cais oddi ar y rhaglen hyd nes y bydd trafodaethau ac ymgynghoriadau wedi dod i ben a hyd nes y bydd modd cyflwyno argymhelliad.**<br><br>**6.3 37C187 - Cais amlinellol gyda rhai materion wedi eu cadw ar gyfer codi annedd, ynghyd â gwaith altro ar y fynedfa gyfredol ar dir ger Bryn Garth, Brynsiencyn.**<br><br>**PENDERFYNWYD gohirio rhoi sylw i'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog ac am y rheswm a roddir yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**6.4 41C125B/EIA/RE – Cais llawn i godi 3 tyrbin gwynt 800kw-900kw gydag uchder hwb hyd at uchafswm o 55m, rotor hyd at uchafswm o 52m ar ei draws ac uchder blaen unionsyth hyd at uchafswm o 81m, ynghyd â gwaith gwella i'r fynedfa bresenol i'r A5025 ynghyd â chodi 3 chabinet cadw offer ar dir yn Bryn Eryr Uchaf, Porthaethwy.**<br><br>**PENDERFYNWYD gohirio rhoi sylw i'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog ac am y rheswm a roddir yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**6.5 42C114A – Cais amlinellol i godi annedd amaethyddol ynghyd â gosod tanc septig yn Tai'n Coed, Pentraeth.**<br><br>**PENDERFYNWYD gohirio rhoi sylw i'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog am y rheswm a roddir yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**6.6 44C294B – Cais llawn i godi dau dyrbin gwynt 20kw gydag uchder hwb hyd at 20.5m, rotor hyd at 13.1m ar ei draws ac uchder blaen unionsyth fertigol hyd at 27.1m ar dir yn Plas Newydd, Rhosybol.**<br><br>**PENDERFYNWYD gohirio rhoi sylw i'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog am y rheswm a roddir yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 CEISIADAU YN CODI** |

| | |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **7.1 34C655 – Cais llawn i wneud gwaith altro ac estyn yn 2 Ty'n Coed Uchaf, Llangefni.**<br>*(Gwnaed ddatganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd Nicola Roberts a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais).*<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, gydag amodau a nodwyd yn yr adroddiad.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 CEISIADAU ECONOMAIDD** |
| PENDERFYNIAD | Ni chafodd unrhyw geisiadau eu hystyried yn y cyfarfod hwn. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 CEISIADAU AM DAI FFORDDIADWY** |
| PENDERFYNIAD | Ni chafodd unrhyw geisiadau eu hystyried yn y cyfarfod hwn. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 CEISIADAU'N GWYRO** |
| PENDERFYNIAD | Ni chafodd unrhyw geisiadau eu hystyried yn y cyfarfod hwn. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 CYNIGION DATBLYGU GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION** |
| PENDERFYNIAD | **11.1 13C183A – Cais amlinellol gyda mynediad wedi ei gynnwys ar gyfer codi annedd ynghyd â gwaith altro i'r fynedfa gyfredol a gosod pecyn triniaeth ar dir ger Seren Las, Bodedern.**<br><br>**PENDERFYNWYD gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn ei adroddiad.**<br><br>**11.2 36C272A – Cais llawn i godi sied amaethyddol i gadw da byw yn Cae'r Bwl, Rhostrehwfa.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, a chyda'r amodau a nodwyd yn yr adroddiad.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A’R PWNC | **12 GWEDDILL Y CEISIADAU** |
| PENDERFYNIAD | **12.1 19LPA989/CC – Cais llawn ar gyfer newid tair o’r ffenestri presennol ar y llawr cyntaf a’r ail lawr yn y drychiad blaen gyda ffenestri traddodiadol dalennog pren yn y Fferyllfa, 62 Stryd y Farchnad, Caergybi.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo’r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, a chyda’r amodau a nodwyd yn yr adroddiad.**<br><br>**12.2 19LPA989A/AD/CC – Cais i godi arwydd siglo sydd heb ei oleuo yn Fferyllfa Rowlands, 62 Stryd y Farchnad, Caergybi.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo’r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, a chyda’r amodau a nodwyd yn yr adroddiad.**<br><br>**12.3 19LPA990/AD/CC - Cais i godi arwydd siglo sydd heb ei oleuo yn Siop y Porth, 60 Stryd y Farchnad, Caergybi.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo’r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, a chyda’r amodau a nodwyd yn yr adroddiad.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A’R PWNC | **13 MATERION ERAILL** |
| PENDERFYNIAD | **13.1 23C84C – Cais i benderfynu a oes angen caniatâd ymlaen llaw i godi sied amaethyddol ar gyfer cadw gwair, gwellt a pheiriannau ym Mhenrhos, Maenaddwyn.**<br><br>**PENDERFYNWYD nodi’r adroddiad.**<br><br>**13.2 38C277B – Cais llawn i godi tyrbin gwynt 50kw hyd at 24.6m, gyda rotor hyd at 19.2m ar ei draws ac uchder blaen union syth fertigol hyd at uchafswm o 34.2m ynghyd â gwaith cysylltiedig ar dir yn Caerdegog Uchaf, Llanfechell.**<br><br>**PENDERFYNWYD, ar bleidlais fwrw’r Cadeirydd, i gefnogi’r cais mewn apêl yn erbyn argymhellion y Swyddog.** |

| | |
|---|---|
| | **Oherwydd bod y penderfyniad yn tynnu’n groes i argymhelliad y Swyddog caiff y mater ei ohirio’n awtomatig i’w ystyried yn y cyfarfod nesaf.** |